OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2025 Rhif 69 (Cy. 18)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf i Gyffordd 49 (Pont Abraham), Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2025

Gwnaed	*24 Ionawr 2025*
Yn dod i rym	*27 Ionawr 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y draffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf i Gyffordd 49 (Pont Abraham), Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Ionawr 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 27 Ionawr 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r cerbytffyrdd tua'r gorllewin a thua'r dwyrain o draffordd yr M4 rhwng Cyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf a Chyffordd 49 (Pont Abraham), Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys yr holl ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin a thua'r dwyrain rhwng y cyffyrdd hyn.

Cymhwyso

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 24 Ionawr 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru